Adroddiad Cyfarfod 12:09:18
Dylan a Neil

Cafwyd agoriad ardderchog i dymor newydd Merched y Wawr, Bethel, pan ddaeth Dylan a Neil, y ddeuawd enwog o'r Felinheli i'n diddanu. Trwy gyfrwng caneuon ac hanesion, adroddodd Dylan hynt ei fywyd a'i yrfa drwy'r blynyddoedd, a'i falchder erbyn heddiw bod Neil ei fab yn rhannu'r un llwyfan. Cydymdeimlodd Mair Read, oedd yn llywyddu yn absenoldeb Gwenan Roberts, â Nan Rowlands ym marwolaeth ei thad ac â Beti Owen ym marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith. Llongyfarchwyd Eleri Warrington a Gwyneth Jones Caerhun ar enedigaeth wyrion ac estynwyd dymuniadau da i Ceri – merch Jen Roberts ar ei phriodas â Sam.

Cynigwyd y diolchiadau gan Mair Price ac estynwyd croeso i bawb fwynhau'r lluniaeth ysgafn, amrywiol oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Yn ein cyfarfod nesa nos Fercher Hydref 10fed disgwylir Alwyn Jones atom i siarad am waith yr Ambiwlans Awyr. Croeso cynnes i aelodau newydd.